

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Nia Heledd Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

2/5/2017

Presennol: Heledd Jones (Cadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Beryl Hughes Griffiths Dewi Jones, , Karl Jones, Rhodri Jones, Huw P Roberts, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1705 Ymddiheuriadau: Alwyn E Jones, Alwyn Roberts, Ian Trow, Alan Jones Evans,

1706 Cyhoedd: Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1707 Buddiant: Derbyniwyd datganiad buddiant Rhodri P Jones ym mater 1713iv.

1708 Cofnodion: Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 4/4/2017.

1709 Materion y Clerc : Darllenwyd ymateb Cartrefi Cymunedol Gwynedd i sylwadau'r Cyngor a chytunwyd i anfon i ofyn am hyfforddiant ar lenwi'r ffurflen gais ar gyfer darpar denantiaid.

1710 Is bwyllgor y Fynwent: Trefnwyd cyfarfod wrth y fynwent am 6.45pm nos Lun 15/5/17.

1711 Cyngor Gwynedd: Nid oedd Adroddiad gan y Cynghorydd oherwydd ei bod yn gyfnod etholiad

1712 Materion Eiddo'r Cyngor: Derbyniwyd cynllun 5 mlynedd o gynnal yr eiddo a baratowyd gan Karl Jones a Dewi Jones. Diolchwyd iddynt am greu dogfen werthfawr a fydd yn llywio gosod y Praesept blynyddol. Cytunwyd y dylai'r Is Bwyllgor Cyllid adolygu'r Cynllun yn flynyddol yn eu cyfarfod yn yr Hydref. Cytunwyd i ofyn i Owain Sion wneud y gwaith o staenio'r meinciau a thalu am hyn o'r arian wrth gefn.

1713 Materion ariannol –

- i. Cytunwyd i wneud taliadau'r mis, sef toriad cyntaf y ddwy fynwent a chysylltu'r diffib i'r trydan..
- ii. Derbyniwyd taliad cyntaf o'r Praesept
- iii. Derbyniwyd eglurhad yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol am faterion parthed Arolwg Ariannol 2016
- iv. Ystyriwyd cais am gefnogaeth gan Bwyllgor Sioe Amaethyddol Llanuwchllyn a chytunwyd, ar ôl astudio'r fantolen, i gyfrannu £100.

1714 Materion lleol: ystyried materion gan aelodau'r Cyngor Cymuned

- i. Llwybr y Cei - derbyniwyd gwybodaeth ddiweddar o'r sefyllfa grant i blygu'r gwrych a chytunodd Rhodri Jones i gysylltu gyda'r tîrfeddiannwr a'r swyddog perthnasol ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Bydd y Swyddog yn llunio cytundeb a bydd hon yn mynd i dendar; bydd barn Parc Cenedlaethol Eryri yn cael ei

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Nia Heledd Jones

ystyried wrth ddewis contractwr. Bydd unrhyw wariant uwchben y cymhorthdal yn dod o'r swm a neilltuwyd dan y pennawd "Her Gwynedd".

- ii. Derbyniwyd ymweliad a sicrwydd ar bapur gan swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri fod rhai camfeydd ar lwybrau'r Aran wedi eu trwsio a bod cynlluniau mewn llaw i drwsio neu newid y lleill. Diolchwyd i'r swyddogion am eu hymateb parod.
- iii. Cytunwyd i gefnogi edrych mewn i'r cais i ystyried cyfeillio gyda phentref yn Llydaw gan y byddai hyn yn fodd o hybu perthynas dda ac ymwybyddiaeth ieithyddol, yn arbennig ymysg disgyblion ysgol.

1715 Partneriaeth Penlllyn: Derbyniwyd adroddiad y Cynrychiolwyr a chytunwyd mai cynnal y safonau arferol ar y llwybrau yw dymuniad Cyngor Cymuned Llanuwchllyn.

1716 Gohebiaeth:

1. **Parc Cenedlaethol Eryri:** Derbyniwyd rhybudd am Adolygiad o Ddrafft Adnau Cynllun Datblygu Lleol Eryri.
2. **Gwynedd:** Nid oedd enwebiad i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.
3. **Arall:**
 - i. Nid oedd sylwadau ar gais NMWTRA i gau'r A494 ar gyfer Treiathlon ar 3/9/17 (9.30 – 13.30)
 - ii. Derbyniwyd llythyron diolch am gyfraniadau gan Bwyllgor Llên y Llannau a Chymdeithas Rhieni Ysgol y Berwyn. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Edwina Jones am y cydweithio ar y di-ffib.
 - iii. Cytunodd Heledd Jones i gynrychioli'r Cyngor yng Nghyfarfod Blynnyddol y Neuadd ar 12/6/17.
 - iv. Ystyriwyd cais Eluned Morgan AM i arddangos poster; cytunwyd mai arddangos gwybodaeth am syrjeri gan ein cynrychiolwyr yw'r arfer gan y Cyngor.